## ATODLEN 1

Rheoliad 2

## DISGRIFIADAU NEILLTUEDIG AR GYFER CYNHYRCHION DYNODEDIG

| Colofn 1<br>Disgrifiadau Neilltuedig | Colofn 2<br>Cynhyrchion Dynodedig |
|---|---|
| Yn y disgrifiadau a restrir yn eitemau 1 i 5 isod —<br>(a) os caiff y cynnyrch ei weithgynhyrchu o fath unigol o ffrwyth rhoddir enw'r ffrwyth hwnnw yn lle'r gair “fruit”;<br>(b) yn ddarostyngedig i amod (c), os caiff y cynnyrch ei weithgynhyrchu o ddau fath o ffrwyth neu fwy (ac eithrio'r defnydd o naill ai sudd lemon neu sudd lemon dwysedig neu'r ddau os yw hyn yn unol â'r awdurdodiad a ddisgrifir ym mharagraff 4 o Atodlen 3 ategir y disgrifiad neilltuedig gan enwau'r ffrwythau a ddefnyddir, mewn trefn ddisgynnol o'r cyfaint (wedi'i gyfrifo fel sudd neu biwrî dwysedig) o'r sudd neu'r piwrî a gynhwysir o bob un math o ffrwyth; ac<br>(c) os yw'r cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu o dri math o ffrwyth neu fwy, yna os nad ategwyd y disgrifiad neilltuedig fel y mae'n ofynnol gan amod (b) ategir ef, ar y llaw arall, gyda'r geiriau “several fruits” neu gan eiriau tebyg, neu gan y nifer o fathau o ffrwythau a ddefnyddiwyd. | |
| **1.** Fruit juice | Y cynnyrch eplesiadwy ond na chafodd ei eplesu a gafwyd o ffrwyth sy'n iach ac aeddfed, yn ffres neu wedi'i gadw drwy ei oeri, o un math neu fwy nag un math a gymysgwyd ynghyd, y mae ganddo hynodrwydd lliw, blas a chyflas nodweddiadol sudd y ffrwyth y daw ohono;<br>y gellir adfer iddo gyflas, mwydion a chelloedd o'r sudd a wahanwyd yn ystod y prosesu yn ôl at yr un sudd;<br>y mae'n rhaid bod y sudd, yn achos ffrwythau sitrws heblaw leimiau, yn dod o endocarp; ac<br>yn achos leimiau, gellir cael y sudd o'r ffrwyth cyfan, drwy brosesau cynhyrchu addas y mae cyfrannedd cyfansoddol y rhan allanol o'r ffrwyth yn cael ei leihau i isafswm. |
| **2.** Concentrated fruit juice | Y cynnyrch a geir o sudd ffrwythau o un math neu fwy drwy dynnu'n ffisegol gyfran benodol |

| Colofn 1<br>Disgrifiadau Neilltuedig | Colofn 2<br>Cynhyrchion Dynodedig |
|---|---|
| | o'i gynnwys dŵ r. Os bwriedir y cynnyrch ar gyfer ei yfed neu ei fwyta'n uniongyrchol rhaid tynnu o leiaf 50% o gyfran y cynnwys dŵ r. |
| **3.** Fruit juice from concentrate | Y cynnyrch a geir wrth roi yn ôl, mewn sudd ffrwythau dwysedig, ddŵ r a echdynnwyd o'r sudd hwnnw yn ystod y broses ddwyso, a thrwy adfer y cyflasau ac, os yw hynny'n briodol, y mwydion a'r celloedd a gollwyd o'r sudd ond a adferwyd yn ystod y broses o gynhyrchu'r sudd ffrwythau o dan sylw neu'r sudd ffrwythau o'r un math;<br>y mae'n rhaid i'r dŵ r a ychwanegwyd ddangos y nodweddion cemegol, microbiolegol, organoleptig ac, os ydynt yn briodol, nodweddion eraill a fydd yn gwarantu ansoddau hanfodol y suddoedd; a<br>mae'n rhaid i'r cynnyrch ddangos nodweddion organoleptig a dadansoddol sydd o leiaf yn gyfartal â'r rhai hynny mewn math arferol o sudd ffrwythau a gafwyd o ffrwythau neu ffrwythau o'r un math. |
| **4.** Dehydrated *neu* powdered fruit juice | Y cynnyrch a geir o sudd ffrwythau o un math neu fwy drwy dynnu'n ffisegol ei holl gynnwys dŵ r. |
| **5.** Fruit nectar | Cynnyrch eplesiadwy ond na chafodd ei eplesu a geir wrth ychwanegu dŵ r (mewn swm nad yw'n fwy na 20% o gyfanswm pwysau'r cynnyrch gorffenedig) ac unrhyw un neu fwy o'r canlynol —<br>(a) siwgrau, neu<br>(b) melysyddion, neu<br>(c) mêl,<br>at —<br>(i) sudd ffrwythau, neu<br>(ii) sudd ffrwythau dwysedig, neu<br>(iii) sudd ffrwythau o ddwysfwyd, neu<br>(iv) sudd ffrwythau dadhydradedig, neu<br>(v) sudd ffrwythau powdr, neu<br>(vi) piwrî ffrwythau, neu<br>(vii) at unrhyw gymysgedd o gynhyrchion yn (i) i (vi) uchod,<br>ac mae'r cynnyrch hwnnw i fodloni safon isaf y gofynion ynghylch cynnwys (boed sudd ffrwythau, piwrî ffrwythau, neu gymysgedd o sudd o'r fath a phiwrî) a bennir yn Atodlen 4, ac os defnyddir melysyddion mae'r defnydd ohonynt |

| Colofn 1<br>Disgrifiadau Neilltuedig | Colofn 2<br>Cynhyrchion Dynodedig |
|---|---|
| | hwy hefyd i fod yn unol â gofynion Cyfarwyddeb 94/35/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar felysyddion ar gyfer eu defnyddio mewn bwydydd(**1**).<br><br>Os un neu fwy o fricyll neu o ffrwythau a restrir yn Rhan II a III o Atodlen 4 yw'r math o ffrwyth a ddefnyddir, gellir gweithgynhyrchu'r cynnyrch heb ychwanegu unrhyw siwgrau, melysyddion neu fêl. |

(**1**) OJ Rhif L237, 10.9.94, t.3, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 96/83/EC (OJ Rhif L48, 19.2.97, t.16).